**P-06-1439 Gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lisa Mart ôl casglu 8,226 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad yn gweithredu o fewn cyllidebau tynn er eu bod yn darparu llwyfannau hanfodol i dalent newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth wedi rhybuddio y bydd tua 10% o leoliadau cerddoriaeth llawr gwlad yn cau erbyn diwedd 2023.

Oherwydd diffyg cysylltiadau teithio hanfodol hwyr y nos, mae cynulleidfaoedd yn cael eu hatal rhag mynychu lleoliadau y byddent yn eu cefnogi fel arall.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i wella cysylltiadau teithio hanfodol hwyr y nos a sicrhau bod diwylliant ar lawr gwlad yn hygyrch ac yn cael ei warchod am flynyddoedd i ddod.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**
Llythyr agored i Lywodraeth Cymru - https://cy.swansea-arena.co.uk/an-open-letter-to-welsh-government

Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o 10 Cwestiwn sy'n sail i "Croeso i Gymru 2020 - 2025 Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr: crynodeb" https://businesswales.gov.wales/tourism/sites/tourism/files/documents/10-Questions_Response-Analysis-Report_2020-01-22_Cymraeg.pdf

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Abertawe
- Gorllewin De Cymru